BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# HYFFORDDIANT

Diogelu plant ac oedolion

# Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion Yng Nghymru

## Wythnos Ddiogelu Genedlaethol 2025

**Dydd Llun, 10 Tachwedd 2025**

**2:00pm - 4.00pm**

**Mae adolygiadau ymarfer oedolion yn gyfle hanfodol i ddysgu o achosion lle mae oedolion sydd mewn perygl wedi profi niwed sylweddol neu farwolaeth, gan nodi cryfderau a gwendidau systemig o fewn ymarfer diogelu. Wedi'i gomisiynu gan Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru, dadansoddodd yr adolygiad thematig 2025 hwn 25 o adolygiadau ymarfer oedolion yn ymdrin â digwyddiadau yng Nghymru rhwng 2016 a 2022.**

**Bydd y weminar hon yn rhannu canfyddiadau o'r adolygiad thematig ac yn archwilio'r goblygiadau ar gyfer polisi ac ymarfer yng Nghymru.**

## Yn cynnwys siaradwr gwadd, yr Athro Michelle McManus

**Arweiniwyd yr adolygiad hwn gan Michelle McManus, sy'n Athro Diogelu ac Atal Trais ym Mhrifysgol Metropolitan Manceinion. Mae hi wedi arwain ymchwil genedlaethol a rhyngwladol bwysig ar ddiogelu, camfanteisio a lleihau trais, gan weithio'n agos gyda'r llywodraeth, yr heddlu a byrddau diogelu i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer. Mae ei gwaith yn argymell yn gryf y dylid gweithredu polisi cryfach mewn meysydd sy'n cynnwys datblygu'r gweithlu a chynnwys lleisiau oedolion sydd mewn perygl mewn gwaith ac ymarfer diogelu.**

***Cynulleidfa darged:*** **Gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr gwaith cymdeithasol, swyddogion yr heddlu, gweithwyr proffesiynol iechyd, nyrsys ardal, nyrsys seiciatrig cymunedol, therapyddion galwedigaethol, rheolwyr comisiynu, rheolwyr cartrefi gofal a nyrsio, swyddogion tân ac achub a sefydliadau trydydd sector perthnasol**

***Yn bodloni deilliannau dysgu ar gyfer grwpiau staff C a D y***

***Safonau a Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol***

**SEMINAR FYW TRWY GYFRWNG MICROSOFT TEAMS**

**I archebu lle ewch i : https://forms.office.com/e/aP5nzx2aF8**
**neu sganiwch y cod QR**

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw: **31 Hydref 2025**